

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, yn dwyn yr enw Hawliau Plant yng Nghymru.

Mae gan Lywodraeth Cymru hanes balch mewn perthynas â hawliau plant. Mae'n seiliedig ar ein hymrwymiad i egwyddorion Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae Cymru wedi arwain y ffordd drwy ymgorffori hawliau plant yn gyfreithiol drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i CCUHP a'i brotocolau dewisol wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau.

Mae hawliau plant yn sylfaenol i'n dull o ymdrin â pholisi'r llywodraeth ac yn sail i'n huchelgais bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am eu hadroddiad ar 'Hawliau Plant yng Nghymru' a'u hargymhellion penodol, y gallaf dderbyn y mwyafrif ohonynt. Rwyf wedi nodi ymateb llawn i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

Ymatebion Manwl i argymhellion yr Adroddiad

Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn argymell

Y dylai Llywodraeth Cymru ailddatgan ymrwymiad pendant i roi sylw dyledus i hawliau plant ym mhob penderfyniad y mae'n ei wneud, ar sail Asesiad cadarn o'r Effaith ar Hawliau Plant oni bai bod rheswm clir dros beidio ag ymgymryd ag un.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn ailddatgan pwysigrwydd hawliau plant ar bob cyfle ystyrllon.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 2: mae'r Pwyllgor yn argymell

Y dylai rôl i Weinidog gael ei chreu ar y cyfle nesaf gyda chyfrifoldebau clir a diffiniedig ar gyfer plant a phobl ifanc ynghyd â rôl bendant o ddwyn y Cabinet i gyfrif dros gyflawni darpariaethau Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2001.

Ymateb: Gwrthod

Mae'r ddyletswydd 'i roi sylw dyledus' o dan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, yn nodi'n glir bod y ddyletswydd hon yn cael ei gosod ar **holl** Weinidogion Cymru, wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau. Fel y Dirprwy Weinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae gennyf gyfrifoldebau penodol

Dogfen 2

mewn perthynas â phlant a phobl ifanc a'u hawliau. Fodd bynnag, fel llywodraeth, rydym yn cytuno bod hawliau plant yn gyfrifoldeb i bawb. Golyga hyn fod pryderon plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn flaenllaw yn syniadaeth gyfunol a phrosesau llunio polisiau'r Cabinet.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Y dylai Llywodraeth Cymru fewnosod darpariaeth yn ei Chynllun Hawliau Plant diwygiedig i holl Weinidogion Cymru ymgymryd â hyfforddiant cychwynol a dilynol ar ddyletswydd “sylw dyledus” Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen sicrhau bod corff mawr o wybodaeth am hawliau plant ar gael i swyddogion er mwyn iddynt allu rhoi cyngor cynhwysfawr i Weinidogion Cymru. Mae'r swyddogion yn datblygu cyfres o adnoddau newydd ac ar hyn o bryd yn gweithio gyda Plant yng Nghymru i ddatblygu dull diwygiedig o ymdrin â hyfforddiant.

Fel rhan o'r strategaeth codi ymwybyddiaeth (argymhelliad 8), bydd Llywodraeth Cymru yn amlinellu amrywiaeth o ddulliau gweithredu a fydd yn hyrwyddo hawliau plant. Bydd hyn yn cynnwys cynnig hyfforddiant i holl Weinidogion Cymru a phroses strwythuredig – drwy Cymru Ifanc – er mwyn galluogi Gweinidogion i glywed barn pobl ifanc am bryderon/syniadau sy'n berthnasol i'w cyfrifoldebau polisi.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 4: Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys yn y dull cwyno yn ei Chynllun Hawliau Plant diwygiedig yr hawl i herio penderfyniad i beidio â chynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar unrhyw faes o ddatblygu polisi.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Cynllun Hawliau Plant eisoes yn nodi'r hyn y gall plant a phobl ifanc (neu eu cynrychiolwyr) ei wneud os byddant o'r farn nad yw Gweinidogion wedi rhoi sylw dyledus i CCUHP.

Mae hefyd yn nodi diben Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, pryd a sut y dylid cynnal a chyhoeddi asesiad o'r fath a'r hyn a ddylai ddigwydd pan na fydd penderfyniadau yn berthnasol i blant na phobl ifanc. Caiff yr argymhelliad hwn ei adlewyrchu yn y fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun Hawliau Plant sydd wrthi'n cael ei datblygu.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Dogfen 2

Argymhelliad 5: Mae'r Pwyllgor yn argymell

Y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r holl Aseidiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant sydd wedi'u cwblhau, gan gynnwys aseidiadau ar benderfyniadau polisi nad ydynt yn deddfwriaethol, a hynny fel rhan o'r drefn.

Ymateb: Derbyn

Ym mis Gorffennaf 2020, penderfynodd Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r holl Aseidiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant o 1 Ionawr 2020 ymlaen. Cyhoeddir y rhain ar wefan Llywodraeth Cymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 6: Mae'r Pwyllgor yn argymell

Y dylai Llywodraeth Cymru ailddatgan ei hymrwymiad i sicrhau bod y gofynion deddfwriaethol o ran hawliau plant yn cael eu hadlewyrchu'n llawn ac yn effeithiol yn ei phenderfyniadau ariannol ar draws pob portffolio, a hynny trwy ddiwygio'i Chynllun Gwella'r Gyllideb yn gyflym er mwyn egluro'r camau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd "sylw dyledus" ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Llywodraeth hon yn gwbl ymrwymedig i fodloni'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer pob asesiad effaith, gan gynnwys lle mae'r rhain yn ymwneud ag asesu ein penderfyniadau ariannol.

Rydym wedi ymrwymo i barhau i wella ein dull o asesu effeithiau ein cynigion cyllidebol, a dyna pam rydym wedi nodi, yng Nghynllun Gwella'r Gyllideb, y camau rydym yn bwriadu eu cymryd dros y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys cerrig milltir byrdymor a thymor canolig.

Fel y nodwyd yn y Cynllun Gwella Cyllideb cyntaf, rydym yn bwriadu mireinio a diweddarau'r cynllun bob blwyddyn dros gyfnod treigl o bum mlynedd, a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft flynyddol. Diben hyn yw cydnabod natur barhaus y gwaith o ysgogi a chynnal y newidiadau tymor hwy rydym am eu rhoi ar waith. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes ac yn ystyried pa gamau pellach y gallwn eu cymryd er mwyn sicrhau bod hawliau plant wedi'u hintegreiddio fel rhan o'n dull gweithredu ehangach fel rhan o'r broses flynyddol.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 7: Mae'r Pwyllgor yn argymell

Y dylai Llywodraeth Cymru ddychwelyd i gyhoeddi Aseiad unigol o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer ei Chyllideb Ddrafft i ddangos ei bod yn cydymffurfio â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, nes y gellir sicrhau'r Pwyllgor hwn y gall

Dogfen 2

yr Asesiad Effaith Integredig Strategol sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Ddrafft ddangos bod y ddyletswydd i roi "sylw dyledus" i'r Confensiwn wedi'i harfer.

Ymateb: Gwrthod

Mae asesu effeithiau wrth wraidd prosesau llunio polisi. Mae'r adnodd Asesiad Effaith Integredig yn darparu un fframwaith integredig sy'n llywio'r gwaith o ddatblygu polisi a deddfwriaeth. Mae'r adnodd yn ein helpu i gynnal asesiad cyflawn o effaith cam gweithredu arfaethedig, gan gynnwys yr effeithiau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae'n dwyn yr amrywiaeth o ddyletswyddau sy'n ymwneud ag asesu'r effaith ynghyd mewn fframwaith cydlynol; mae'n lleihau cymhlethdod a dyblygu; ac yn integreiddio'r broses o asesu'r effaith â phrif gyfeiriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

O fewn yr adnodd Asesu Effaith Integredig ceir cwestiynau sgrinio i nodi a oes angen cynnal dadansoddiad manylach o bwnc penodol. Yn achos hawliau plant, mae'r cam sgrinio yn statudol ar gyfer pob cynnig, ac mae angen cynnal asesiad llawn yn dibynnu ar ganlyniad y cam sgrinio. Mae'r broses hon yn ei gwneud yn bosibl i'r effaith ar blant gael ei hystyried drwy gydol y broses.

Credwn fod mabwysiadu dull integredig o gynnal asesiadau o effaith y gyllideb ddrafft drwy'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn adlewyrchu'n well ein cyfrifoldeb i ystyried ein penderfyniadau yn gyffredinol o nifer o safbwyntiau er mwyn deall eu heffaith, gan gynnwys ystyried hawliau plant.

Mae'r dull integredig hwn yn ein galluogi i ddeall effaith gyffredinol y penderfyniadau a wneir yn well. Rydym yn cydnabod bod pobl a lleoedd yn amldimensiynol ac mae'r dull integredig yn ceisio nodi effeithiau lluosog a chronnol sy'n adlewyrchu profiad personol pobl a realiti ein heconomi, ein diwylliant a'n hamgylchedd.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi strategaeth codi ymwybyddiaeth genedlaethol gyda chanlyniadau mesuradwy i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd, gan gynnwys plant, o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotoocolau Dewisol.

Ymateb: Derbyn

Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i ddatblygu strategaeth codi ymwybyddiaeth genedlaethol.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Dogfen 2

Argymhelliad 9: Mae'r Pwyllgor yn argymell

Y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod addysg hawliau dynol, gan gynnwys hawliau plant gan gyfeirio at y Confensiwn, yn cael ei dysgu o dan Gwricwlwm newydd Cymru.

Ymateb: Derbyn

Bydd meithrin ymwybyddiaeth o hawliau dynol yn rhan orfodol o Gwricwlwm Cymru am eu bod yn rhan o God y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig, a fydd yn orfodol o dan y Bil Cwricwlwm ac Asesu arfaethedig.

Bydd y Cod yn nodi cysyniadau allweddol ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad. Mae'n rhaid i'r cwricwlwm a fabwysiedir gwmpasu'r cysyniadau allweddol hynny.

Nodir hyn o fewn y Dyniaethau, yn y datganiad: Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol. Yn benodol, mae hyn yn nodi, fel rhan o hyn, y bydd dysgwyr yn meithrin ymwybyddiaeth o'u hawliau eu hunain ac yn ystyried cysyniad hawliau.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 10: Mae'r Pwyllgor yn argymell

Y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys dull cwyno cryfach ac addas i blant yn ei Chynllun Hawliau Plant diwygiedig i rymuso plant a phobl ifanc i geisio iawn pan fo angen hynny ac i gynnal eu hawliau.

Ymateb: Derbyn

Bydd Cynllun Hawliau Plant diwygiedig yn cydnabod ei bod yn bosibl y bydd angen cymorth ar blant i wneud cwyn os byddant o'r farn nad yw Gweinidogion wedi rhoi sylw dyledus i CCUHP wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Byddwn hefyd yn edrych ar y weithdrefn gwyno gyda'r bwriad o'i gwneud yn fwy addas i blant er mwyn sicrhau bod y broses gwyno yn haws i'w deall a bod plant yn deall eu hawl i gwyno yn well, pan fyddant o'r farn nad yw Gweinidogion wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus.

At hynny, rydym yn cynnig y dylid cynnal trafodaethau â'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn deall ei safbwynt ynglŷn â sut i hwyluso cwynion gan blant.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Dogfen 2

Argymhelliad 11: Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Y dylai Llywodraeth Cymru alw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gadarnhau Protocol Dewisol 2014 i'r Confensiwn er mwyn rhoi hawl i blant unigol gyflwyno sylwadau yn uniongyrchol i'r Cenhedloedd Unedig.

Ymateb: **Derbyn**

Rydym wedi ymrwmo i ysgrifennu at Lywodraeth y DU er mwyn galw arni i gadarnhau'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar weithdrefn gyfathrebu (2014).

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 12: Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Y dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei Chynllun Hawliau Plant diwygiedig strategaeth glir i sicrhau cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn trafodaethau ar benderfyniadau gan Lywodraeth Cymru sy'n effeithio arnynt.

Ymateb: **Derbyn**

Rydym yn gweithio gyda Plant yng Nghymru i ddatblygu model cynrychioliadol cynaliadwy i Cymru Ifanc er mwyn sicrhau y gall lleisiau plant a phobl ifanc fwydo i mewn i bolisi.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 13: Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ymateb strategol manwl i Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn 2016 o fewn y chwe mis nesaf. Dylai hyn gynnwys manylion y cynnydd a wnaed yn erbyn yr holl argymhellion a pha gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â meysydd pryder.

Ymateb: **Derbyn**

Rydym yn cytuno i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn pob argymhelliad sy'n ymwneud â materion datganoledig.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 14: Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi diweddariad blynyddol o'r cynnydd a wneir yn erbyn Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, i'w osod gerbron y Senedd ac i fod yn destun gwaith craffu blynyddol gan y pwyllgor perthnasol.

Ymateb: **Derbyn**

Dogfen 2

Bwriadwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Senedd am y cynnydd a wneir yn rheolaidd.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 15: Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Y dylai pob corff cyhoeddus datganoledig (megis awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol) gael eu gosod o dan ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau i bob corff cyhoeddus datganoledig ynghylch yr hyn y mae hyn yn ei olygu o ran eu swyddogaethau beunyddiol a sut y caiff cydymffurfiaeth ei monitro.

Ymateb: Gwrthod

Ym mis Ionawr 2020, comisiynodd Llywodraeth Cymru gonsortwm ymchwil o dan arweiniad Prifysgol Abertawe i gynnal gwaith ymchwil ar gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.

Cyflwynir yr adroddiad terfynol, gan gynnwys y prif ganfyddiadau ac argymhellion, i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Chwefror 2021. Mae angen inni aros am ganlyniadau'r ymchwil hon.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 16: Mae'r Pwyllgor yn argymhell

Y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r penderfyniad i beidio â throsglwyddo'r cyfrifoldeb dros benodi ac ariannu Comisiynydd Plant Cymru i'r Senedd, a hynny ar y cyfle cyntaf i ddeddfu.

Ymateb: Gwrthod

Bydd unrhyw newid i drefniadau penodi ac atebolrwydd yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol; nid oes unrhyw amser deddfwriaethol ar gael yn ystod tymor y Senedd hon.

Goblygiadau Ariannol – Dim.